# MEREDITH, Syr JOHN (1714 - 1780), cyfreithiwr yn Aberhonddu,

**Enw:** John Meredith
**Dyddiad geni:** 1714
**Dyddiad marw:** 1780
**Priod:** Johannah Meredith
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cyfreithiwr
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

brodor o sir Faesyfed. Bu'n siryf Brycheiniog yn 1762 (yn y flwyddyn honno, gellid meddwl, yr urddwyd ef yn farchog), a hefyd yn siryf sir Faesyfed - yn 1780, meddai'r copi o'i feddargraff yn Jones, *History of the County of Brecknock*, 3ydd arg, ii, 91, ond yn 1767 meddai'r rhestr o siryfon Maesyfed yn Jonathan Williams *Hist. Radnorshire*, 2il argraffiad, 97. Bu farw 6 Mawrth 1780, yn 66 oed; bu ei briod Johannah farw naw diwrnod o'i flaen. Meredith oedd cyfreithiwr Howel Harris; gwelir llythyrau ganddynt yng nghasgliad Trefeca yn Ll.G.C., rhwng y rhifnodau 2123 a 2546.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu